# WRITTEN STATEMENT
# BY
# THE WELSH GOVERNMENT

| | |
|---|---|
| **TITLE** | **Update on the Homes for Ukraine scheme** |
| **DATE** | **8 June 2022** |
| **BY** | **Minister for Social Justice** |

From the outbreak of the Ukraine conflict, our message has been clear - Wales is a Nation of Sanctuary and ready to welcome those fleeing war. Launched at the end of March, we have had a very positive response to our Homes for Ukraine Super Sponsor route. We have seen visas granted well in excess of our initial commitment to welcome 1000 people. People are arriving into our Welcome Centres every day in greater numbers to be met with compassion and practical support to help them resettle and rebuild their lives.

The Welsh public have also shown their support for our Nation of Sanctuary approach with many more people arriving and settling in homes up and down the country. Sponsors are not only opening up their homes but helping people find their feet as they start their lives in Wales. For this extraordinary act of kindness we are truly grateful.

These efforts have been achieved through co-operation and working in hand in hand with our partners in local government, health boards, the third sector and community groups. The level of commitment to the people of Ukraine across all public services has been significant. We recognise how challenging it is to balance this work against ongoing commitments to the wider public and to house and resettle other groups of sanctuary seekers. Again we want to offer our thanks and appreciation to all those working to deliver these services.

We are determined to maintain this level of support to all those arriving to give them the best start to their stay in Wales. With such a positive response to the Super Sponsor scheme, we are introducing a temporary operational pause on new applications during June. This will ensure we can focus on embedding our arrangements for next stage accommodation alongside still delivering the wider wraparound services.

It will also give us the opportunity to refine all the arrangements we have put in place to support people on arrival and ensure all public services can continue to deliver the standard of support we collectively want to extend.  This operational pause will not affect any current applications and people will continue to arrive in Wales as visas are granted and travel arrangements are confirmed.

This temporary pause will start from Friday 10 June and we will update Members when the Welsh Government Super Sponsor route is available again.

Today's data tables report that **as of 30 May 2022**:

- **5,668 confirmed applications** have been submitted with a sponsor in Wales, of which **2,866 have Welsh Government as a super sponsor.**
- **4,909 visas have been issued** to those with a sponsor in Wales, of which **2,453 have Welsh Government as a super sponsor.**
- **1,961 people with sponsors in Wales have arrived in the UK,** of which **480 have Welsh Government as a super sponsor.**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diweddariad ar y cynllun Cartrefi i Wcráin** |
| **DYDDIAD** | **8 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** |

Ers dechrau'r gwrthdaro yn Wcráin, mae ein neges wedi bod yn glir – mae Cymru yn Genedl Noddfa ac mae'n barod i groesawu'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel. Rydym wedi cael ymateb cadarnhaol iawn i'n llwybr Uwch-noddwr Cartrefi i Wcráin a lansiwyd ddiwedd mis Mawrth. Mae llawer mwy o fisâu wedi'u rhoi na'n hymrwymiad cychwynnol i groesawu 1000 o bobl. Mae mwyfwy o bobl yn cyrraedd ein Canolfannau Croeso bob dydd ac maent yn cael eu trin â thosturi ac yn cael cymorth ymarferol i'w helpu i ailsefydlu ac i ailgydio yn eu bywydau.

Mae'r cyhoedd yng Nghymru hefyd wedi dangos eu cefnogaeth i'n dull Cenedl Noddfa, gyda llawer mwy o bobl yn cyrraedd ac yn ymgartrefu mewn cartrefi ar hyd a lled y wlad. Mae'r noddwyr nid yn unig yn cynnig llety ond maent hefyd yn helpu pobl i sefydlu wrth iddynt ddechrau ar eu bywydau yng Nghymru. Rydym yn hynod ddiolchgar am y caredigrwydd hwn.

Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy gydweithredu a chydweithio â'n partneriaid mewn llywodraeth leol a grwpiau cymunedol a'n partneriaid yn y byrddau iechyd a'r trydydd sector. Mae'r lefel o ymrwymiad i bobl Wcráin ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn sylweddol. Rydym yn cydnabod pa mor heriol yw cael cydbwysedd rhwng y gwaith hwn ac ymrwymiadau parhaus i'r cyhoedd yn ehangach, gan ailsefydlu grwpiau eraill o geiswyr noddfa hefyd. Eto, hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Rydym yn benderfynol o gynnal y lefel hon o gefnogaeth i bawb sy'n cyrraedd er mwyn rhoi'r dechrau gorau iddynt i'w harhosiad yng Nghymru. Gan ein bod ni wedi cael ymateb mor gadarnhaol i'n cynllun Uwch-noddwr, rydym yn cyflwyno saib gweithredol ar geisiadau newydd yn ystod mis Mehefin. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ganolbwyntio ar ymgorffori ein trefniadau ar gyfer llety yn y cam nesaf, gan barhau i ddarparu gwasanaethau cofleidiol ehangach.

Bydd hefyd yn rhoi cyfle inni fireinio'r holl drefniadau sydd ar waith gennym i gefnogi pobl pan fyddant yn cyrraedd a sicrhau y gall pob gwasanaeth cyhoeddus barhau i

ddarparu'r safon o gefnogaeth yr ydym am ei chynnig. Ni fydd y saib gweithredol yn effeithio ar unrhyw geisiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno, a bydd pobl yn parhau i gyrraedd Cymru wrth i fisâu gael eu rhoi a threfniadau teithio yn cael eu cadarnhau.

Bydd y saib hwn yn dechrau ddydd Gwener 10 Mehefin a byddwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau pan fydd llwybr Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru ar gael eto.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn nodi **ar 30 Mai 2022**:

- Mae **5,668 o geisiadau wedi'u cadarnhau** wedi'u cyflwyno gyda noddwr yng Nghymru, ac mae **Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr ar gyfer 2,866 ohonynt.**
- Mae **4,909 o fisâu wedi'u rhoi** i'r rhai â noddwr yng Nghymru, ac mae **Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr ar gyfer 2,453 ohonynt.**
- Mae **1,961 o bobl gyda noddwyr yng Nghymru wedi cyrraedd y DU,** gyda **Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr ar gyfer 480 ohonynt.**